

RHAGLENNI GWAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU

Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant

'Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor: Economi (Adeiladu economi gref); Pobl (Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb); Lleodd (Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o fyw a gweithio ynddyn nhw).'

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gyloch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig wedi'i hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu rhoi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdany'n nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithredu argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yn natblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Am y rheswm yma bydd y Rhaglenni Gwaith Craffu yn cael eu cyhoeddi am gyfnod o 6 mis a'u hadolygu bob chwarter.

PWYLLGOR CRAFFU – CYNNAL GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMUNEDAU A FFYNIANT

Dyddiad/Amser	Nod cyffredinol	Swyddog	Aelod o'r Cabinet	Gwahoddiad / Yn Bresennol	Craffu yn canolbwyntio ar...
11 Gorffennaf 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	<ul style="list-style-type: none"> Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant 	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p> <p>Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen</p>			Craffu a Her – Aelodau'r Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant yn ystyried eu rhaglen waith ar gyfer 2019/2020.
	<ul style="list-style-type: none"> Anghenion o ran Hyfforddiant 	<p>Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p>			Ystyried a datblygu rhestr o ofynion hyfforddi ar gyfer aelodau o'r Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant.
	<ul style="list-style-type: none"> Polisi gwastraff plastig y Cyngor (a datblygiadau eraill o ran ailgylchu) 	<p>Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen</p>			Craffu a Her – Adolygu polisi gwastraff plastig y Cyngor.
12 Medi 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	<ul style="list-style-type: none"> Sesiwn Ymgysylltu - Y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet 	<p>Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen</p>	Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth	√	Craffu a Her – Ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran hyrwyddo cyfrifoldebau portffolio'r Aelod o'r Cabinet

					ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth
10 Hydref 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad Chwarterol o'r Rhaglen Waith Craffu 	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			<ul style="list-style-type: none"> A yw'r Rhaglen Waith yn addas ac yn berthnasol i'r Cylch Gorchwyl? A yw'r Rhaglen Waith yn dangos canlyniadau ac amcanion clir? Aelodau'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau mewn perthynas â'r Rhaglen Waith.
	<ul style="list-style-type: none"> Diweddariad ar y Gweithgor Craffu "Ailgylchu mewn Ardaloedd Cymunedol" 	Cyfarwyddwr Cyfadran, Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng-flaen			<ul style="list-style-type: none"> Derbyn diweddariad ynglŷn â chanfyddiadau'r Gweithgor Craffu hyd yma gan gynnwys argymhellion drafft.
14 Tachwedd 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	<ul style="list-style-type: none"> Rhaglen Gyfalaf Atodol - Priffyrdd, Trafnidiaeth, a Chynlluniau Strategol 	<p>Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen</p>			Craffu a Her – Asesu'r Rhaglen Gyfalaf fanwl ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol
12 Rhagfyr 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	<ul style="list-style-type: none"> Mannau Agored Rhondda Cynon Taf - Parciau, Ardaloedd Chwarae a Chaeau 	<p>Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen</p> <p>Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad</p>			Craffu a Her – Adolygu'r parciau, yr ardaloedd chwarae a'r lleiniau ar draws y Fwrdeistref Sirol i sicrhau eu bod yn addas at y diben.

Meysydd Eraill i'w harchwilio:-

Gwasanaethau Gofal y Strydoedd

Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus – Baeddu Cŵn

Canolfan Addysg Bryn Pica

Gorchmynion Cadw Coed

Parcio i Breswylwyr (Gweinyddu Hysbysiadau Tâl Cosb (trefniadau HTC))

Dodrefn Stryd yng Nghanol ein Trefi

Anghenion Hyfforddi:-

I'w hystyried yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu cyntaf ym mis Gorffennaf

Gweithgorau Craffu Cyfredol:-

Ailgylchu mewn Ardaloedd Cymunedol